Cais am Orchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod

Rhan 4A Deddf Cyfraith Teulu 1996

I'w llenwi gan y llys	
Dyddiad cychwyn	
Rhif yr achos	
Enw'r llys	
Ffi a godwyd/ Cyfeirnod Dileu Ffi	

Darllenwch y nodiadau ar dudalen 8 wrth i chi lenwi'r ffurflen hon

Noder: Os ydych yn geisydd unigol, yna **NI DDYLECH** gyflwyno'r dogfennau ar yr unigolyn rydych yn gwneud cais i gael gorchymyn yn eu herbyn eich hun.

1 Amdanoch chi (y ceisydd)

Ai chi yw (ticiwch un blwch yn unig)

☐ yr unigolyn sydd i'w amddiffyn gan y gorchymyn hwn (gweler tudalen 8)

☐ trydydd parti perthnasol (gweler tudalen 8)

☐ unrhyw unigolyn arall (gweler tudalen 8)

☐ Mr. ☐ Mrs. ☐ Ms. ☐ Miss ☐ Arall _____

Enw llawn

Os nad ydych chi eisiau i'r person arall neu'r bobl eraill yn yr achos wybod eich manylion cyswllt, gadewch y blwch isod ar gyfer y manylion yn wag a llenwch ffurflen manylion cyswllt Cyfrinachol **C8**. Gallwch gael copi o ffurflen **C8** o hmctsformfinder.justice.gov.uk neu unrhyw swyddfa llys teulu. Gwnewch yn siŵr **nad yw** unrhyw ddogfennau a gyflwynir gyda'r ffurflen hon, neu ar ddyddiad hwyrach, yn datgelu manylion cyswllt cyfrinachol rydych am eu dal yn ôl.

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn (dewisol)

Dyddiad geni (os ydych o dan 18 oed)

☐☐/☐☐/☐☐☐☐

Ar gyfer trydydd partïon perthnasol ac unrhyw unigolyn arall

Enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol)

Swydd yn y sefydliad

© Hawlfraint y Goron 2026

Manylion eich cyfreithiwr (gadewch yn wag os ydych yn cynrychioli chi'ch hun)

Enw llawn

Enw'r cwmni

Cyfeiriad

Cod post

Cyfeirnod

Rhif ffôn

Rhif ffacs

Rhif DX

Rhif cyfrif ffi

2 Ynglŷn â'r unigolyn sydd i'w amddiffyn (gweler y nodiadau ar dudalen 8)

☐ Mr. ☐ Mrs. ☐ Ms. ☐ Miss ☐ Arall _____

Enw llawn

Os oes angen cadw'r cyfeiriad hwn yn gyfrinachol o'r atebydd/atebwyr, gadewch y blwch isod ar gyfer y manylion yn wag a llenwch ffurflen manylion cyswllt Cyfrinachol **C8**. Gallwch gael copi o ffurflen **C8**
o hmctsformfinder.justice.gov.uk neu unrhyw swyddfa llys teulu. Gwnewch yn siŵr **nad yw** unrhyw ddogfennau a gyflwynir gyda'r ffurflen hon, neu ar ddyddiad hwyrach, yn datgelu'r cyfeiriad hwn. Gweler y canllawiau ar dudalen 8.

Cyfeiriad

Cod post

Dyddiad geni (os yw'n hysbys)

☐☐/☐☐/☐☐☐☐

☐ Ticiwch y blwch hwn os nad ydych yn gwybod y dyddiad geni ond rydych yn credu bod yr unigolyn sydd i'w amddiffyn o dan 18 oed.

3 Eich rhesymau dros wneud cais ar ran yr unigolyn sydd i'w amddiffyn

(ar gyfer ceisiadau Trydydd Parti Perthnasol yn unig e.e ceiswyr awdurdod lleol)

Rhowch eich rhesymau yn fyr, gan gynnwys:

- beth rydych yn ei wybod am amgylchiadau'r unigolyn sydd i'w amddiffyn;
- dymuniadau a theimladau'r unigolyn sydd i'w amddiffyn, os gwyddoch beth ydynt.

4 Ynglŷn â’r atebydd/atebwyr

Os oes mwy na dau atebydd, defnyddiwch ddalen ar wahân i barhau.

Os oes mwy na dau o bobl yn rhan o'r achos, ac mae angen cadw manylion cyswllt un (neu fwy) o'r atebwyr yn gyfrinachol o bobl eraill yn yr achos, gadewch y blwch isod ar gyfer eu manylion yn wag a llenwch ffurflen manylion cyswllt Cyfrinachol **C8**. Gallwch gael copi o ffurflen **C8** o hmctsformfinder.justice.gov.uk neu unrhyw swyddfa llys teulu. Gwnewch yn siŵr **nad yw** unrhyw ddogfennau a gyflwynir gyda’r ffurflen hon, neu ar ddyddiad hwyrach, yn datgelu'r manylion cyswllt cyfrinachol hynny.

☐ Mr. ☐ Mrs. ☐ Ms. ☐ Miss ☐ Arall _____

Enw llawn

Cyfeiriad

Cod post

Dyddiad geni (os yw’n hysbys)

__/__/____

☐ Mr. ☐ Mrs. ☐ Ms. ☐ Miss ☐ Arall _____

Enw llawn

Cyfeiriad

Cod post

Dyddiad geni (os yw’n hysbys)

__/__/____

5 Y Gorchymyn/Gorchmynion yr ydych yn gwneud cais amdano/amdanynt

Nodwch beth rydych eisiau i'r gorchymyn ei ddweud (am enghreifftiau gweler tudalen 8). Rhowch fanylion llawn i gefnogi eich cais isod (defnyddiwch ddalen ar wahân i barhau os oes angen) neu mewn datganiad ar wahân. Rhowch fanylion unrhyw drais y mae'r atebydd wedi'i ddefnyddio neu wedi bygwth ei ddefnyddio.

☐ Ticiwch y blwch hwn os ydych yn dymuno i'r llys wrando eich cais heb roi rhybudd i'r atebydd. Rhaid nodi'r rhesymau dros ofyn i gael gwrando cais heb rybudd yn y datganiad ar lw sy'n cefnogi'r cais (Gweler y nodiadau canllaw ar dudalen 8).)

6 Yn y llys

Os bydd angen cyfieithydd arnoch chi neu'r unigolyn sydd i'w amddiffyn, rhaid i chi roi gwybod i'r llys nawr fel y gellir trefnu bod un yn bresennol.

A fyddwch chi neu'r unigolyn sydd i'w amddiffyn angen cyfieithydd yn y llys?

☐ Byddaf/Bydd ☐ Na fyddaf/Na fydd

Os Byddaf/Bydd, ar gyfer pa iaith a thafodiaith:

Os oes angen cymorth neu gyfleusterau arbennig ar gyfer anabledd sydd gennych chi neu'r unigolyn sydd i'w amddiffyn, dywedwch beth sydd ei angen, os gwelwch yn dda. Efallai y bydd staff y llys yn cysylltu â chi ynghylch eich gofynion os oes angen.

Dywedwch a fydd angen i'r llys wneud unrhyw drefniadau arbennig ar eich cyfer chi neu'r unigolyn sydd i'w amddiffyn, er mwyn i chi allu dod i'r llys (e.e. darparu ystafell aros ar wahân i'r atebydd ar eich cyfer neu ddarpariaethau diogelwch eraill).

7 Gwybodaeth arall

Gallai hyn gynnwys enw a chyfeiriad unrhyw rai eraill a allai ddod yn gysylltiedig â'r achos fel atebydd.

8 Achosion a Gorchmynion Eraill

Os oes unrhyw achosion neu orchmynion teulu mewn grym ar hyn o bryd sy'n berthnasol i chi, yr atebydd/atebwyr neu'r unigolyn sydd i'w amddiffyn, nodwch y math o achosion neu orchmynion, y llys a rhif yr achos os ydynt yn hysbys. Atodwch gopi o'r gorchymyn os ydyw ar gael.

Rhaid cyflwyno'r cais hwn i'r atebydd a'r unigolyn sydd i'w amddiffyn gan y gorchymyn

Noder: Os ydych yn geisydd unigol, yna **NI DDYLECH** gyflwyno'r dogfennau ar yr unigolyn rydych yn gwneud cais i gael gorchymyn yn eu herbyn eich hun.

9. Datganiad gwirionedd

Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

☐ **Credaf** fod y ffeithiau a nodir yn y cais hwn yn wir.

☐ Creda'r **ceisydd** fod y ffeithiau a nodir yn y cais hwn yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan y ceisydd i lofnodi'r datganiad hwn.

Llofnod

☐ Y Ceisydd

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol y ceisydd (fel y'i diffinnir gan FPR 2.3(1))

Dyddiad

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw llawn

Enw cwmni cynrychiolydd cyfreithiol y ceisydd

Os ydych yn llofnodi ar ran ffyrm neu gwmni, nodwch y safle neu'r swydd a ddelir

Nodiadau canllaw

Darllenwch y nodiadau hyn ochr yn ochr â'r daflen FL701 'Gorchmynion Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod'

Adran 1 - Ceiswyr

Ceir tri math o geisydd. Yr unigolyn sydd i'w amddiffyn, rhywun ar eu rhan a thrydydd parti perthnasol.

Os chi yw'r unigolyn sydd i'w amddiffyn a'ch bod chi eich hun yn gwneud cais am orchymyn, naill ai gyda neu heb gynrychiolydd cyfreithiol, rydych chithau hefyd yn geisydd. Llenwch adran 1 yn unig, ac yna ewch ymlaen i adran 4.

Unigolyn neu sefydliad sy'n cael gwneud cais ar ran rhywun arall heb ganiatâd y llys yw ceisydd trydydd parti perthnasol. Yr Arglwydd Ganghellor yn unig sy'n cael gwneud unigolyn neu sefydliad yn drydydd parti perthnasol. Mae awdurdodau lleol, er enghraifft, wedi'u pennu'n drydydd partïon perthnasol.

Os nad ydych yn drydydd parti perthnasol ac os nad chi yw'r unigolyn sydd i'w amddiffyn gan y gorchymyn, cewch wneud cais ond bydd arnoch angen caniatâd gan y llys. Gall y llys roi'r ffurflen (**FL430**) i chi wneud cais am ganiatâd.

Manylion cyfeiriad

Os **nad** ydych chi eisiau i'r atebydd/atebwyr wybod eich manylion cyswllt chi, neu fanylion cyswllt unrhyw un a enwir yn y ffurflen gais, gadewch y blwch/blychau ar y ffurflen yn wag a llenwch y Ffurflen Manylion Cyswllt Cyfrinachol **C8**. Gallwch gael copi gan swyddfa unrhyw lys teulu neu ar ein gwefan yn hmctsformfinder.justice.gov.uk

Adran 2 – Yr unigolyn sydd i'w amddiffyn

Nid oes angen llenwi'r adran hon oni bai eich bod yn gwneud cais ar ran rhywun. Os chi yw'r unigolyn sydd i'w amddiffyn gan y gorchymyn hwn, gadewch yr adran hon yn wag.

Manylion cyfeiriad

Os nad ydych eisiau i'r atebydd wybod cyfeiriad yr unigolyn sydd i'w amddiffyn, gadewch y blwch yn wag a llenwch y Ffurflen Manylion Cyswllt Cyfrinachol **C8**. Gall y llys roi'r ffurflen hon i chi.

Adran 4 - Atebwyr

Yr enw ar y sawl yr ydych am i'r llys wneud gorchymyn yn ei erbyn yw'r atebydd. Gall fod mwy nag un atebydd.

Os gwyddoch am bobl eraill a allai ddod yn gysylltiedig â'r achos fel atebwyr, rhowch eu manylion yn adran 7.

Adran 5 - Y Gorchymyn

Mae gorchymyn amddiffyn rhag priodas dan orfod yn amddiffyn unigolyn rhag cael ei orfodi i briodi neu unigolyn sydd wedi cael ei orfodi i briodi. Mae pob Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod yn benodol i'r achos unigol ac yn cynnwys telerau sy'n newid ymddygiad yr atebydd a phobl eraill.

Dyma enghreifftiau o bethau y byddwch, efallai, am i'r llys eu gorchymyn:

- nad yw'r atebydd i fynd â chi dramor i gael eich gorfodi i briodi
- bod yr atebydd i ymddwyn mewn ffordd wahanol
- bod yr atebydd i roi eich pasbort a'ch dogfennau teithio i'r llys.

Yn adran 5 neu mewn datganiad ar wahân, dywedwch pam rydych yn gwneud cais a rhowch fanylion llawn. Rhowch fanylion unrhyw drais y mae'r atebydd wedi'i ddefnyddio neu wedi bygwth ei ddefnyddio.

Gorchmynion brys

Gelwir gorchymyn brys a wneir gan y llys cyn cyflwyno'r rhybudd o gais i'r atebydd yn orchymyn heb rybudd. Wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn heb rybudd, bydd y llys yn ystyried holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys:

- unrhyw berygl o niwed sylweddol i'r unigolyn sydd i'w amddiffyn neu unigolyn arall, os na wneir y gorchymyn ar unwaith
- a yw'n debygol y caiff y ceisydd ei rwystro neu ei atal rhag parhau â'r cais os na wneir gorchymyn ar unwaith
- a oes lle i gredu bod yr atebydd yn ymwybodol o'r achos ond mae'n fwriadol yn osgoi bod ar

parhau dros y dudalen

gael ar gyfer cyflwyno'r gorchymyn, a bydd yr oedi'n rhoi'r unigolyn sydd i'w amddiffyn neu'r ceisydd dan anfantais ddifrifol.

Os ydych yn gwneud cais am orchymyn 'heb rybudd', mae'n rhaid i chi gynnwys y rhesymau pam y dylai'r llys ddelio â'r cais heb roi gwybod i'r atebydd yn gyntaf. Rhaid i chi wneud datganiad ar lw. Gall y llys ddweud wrthych sut i wneud hyn.

Os bydd y llys yn gwneud gorchymyn 'heb rybudd', mae'n rhaid iddo roi cyfle i'r atebydd neu unigolyn arall gyflwyno sylwadau ynghylch y gorchymyn cyn gynted ag y bo'n gyfiawn ac yn gyfleus mewn gwrandawiad llawn.

Rhagor o fanylion

Ceir rhagor o wybodaeth am wneud cais yn y daflen FL701 'Gorchmynion Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod'. Mae'r daflen yn cynnwys gwybodaeth am ddod i'r llys, a beth sy'n digwydd os bydd atebydd neu unigolyn arall yn methu ufuddhau i orchymyn y llys.

Gallwch lwytho'r daflen hon a manylion eich llys lleol oddi ar ein gwefan:
http://hmctsformfinder.justice.gov.uk